Trysorau'r eglwys Gristnogol

(dewrder / penderfyniad / ffyddlondeb)

Galwodd Valerian ei lys ato. "Mae'n rhaid i ni wneud rhywbeth i gael gwared â'r Cristnogion yma'n llwyr. Maen nhw'n gwneud drwg mawr i'r Ymerodraeth. I ble bynnag rydw i'n mynd rwyf yn clywed am eu castiau drwg. Felly, rydw i am i chi feddwl yn ofalus am ffordd i gael gwared â'r Cristnogion haerllug hyn."

Cyn iddo orffen siarad bron, cododd un o'r prif ddynion ar ei draed. "Os ydyn ni am gael gwared â'r Cristnogion beth am i ni hefyd gasglu eu trysorau a'u creiriau at ei gilydd?" "Ie," meddai un arall o'r prif swyddogion, "er mwyn i ni gael eu difetha'n llwyr. Mae gan y Cristnogion hyn ddigon o gyfoeth a thrysorau."

"Mae gen i syniad da," meddai'r Ymerawdwr. "Wyddoch chi'r gŵr Laurence yna sydd yn y carchar? Mae o'n Gristion brwd. Dyna fydd ei dasg o hyn ymlaen. Bydd yn rhaid iddo gasglu'r creiriau a'r trysorau o'r holl eglwysi yn Rhufain." Gwyddai Valerian fod eglwysi Rhufain yn llawn o drysorau gwerthfawr.

Gorchmynnodd i'w weision ddod â Laurence gerbron. Moesymgrymodd Laurence o flaen yr Ymerawdwr Valerian. "Mae gen i dasg i ti," meddai'r Ymerawdwr. "Rwyf yn dy orchymyn i fynd i bob eglwys yn y ddinas i gasglu eu trysorau a dod â nhw i gyd i'r palas brenhinol." Gwnaed y gorchymyn hwn yn y flwyddyn 258.

Ymhen rhai dyddiau dychwelodd Laurence, a chriw o bobl yn ei ddilyn, i mewn i balas yr Ymerawdwr. Daeth swyddogion y palas i'w cyfarfod.

"Beth mae'r bobl yma i gyd yn ei wneud yma? Ydi pob un ohonyn nhw'n cario trysorau o'r eglwysi?"

Safodd Laurence yn dawel o flaen y swyddog ac meddai,

"Does yr un ohonyn nhw'n cario unrhyw fath o drysor. Gorchymyn yr Ymerawdwr oedd i mi ddod â thrysorau'r eglwysi Cristnogol i'r palas. A dyna rydw i wedi'i wneud."

Edrychodd y swyddog yn syn ar Laurence.

"Nhw," meddai Laurence, "ydi trysorau'r eglwys Gristnogol. Pobl y gwahanol eglwysi ydi'r trysorau."

Bu tawelwch am funud. Ond gwylltiodd y swyddog a mynnu fod y milwyr yn carcharu Laurence am ei 'ymddygiad gwaradwyddus' tuag at yr Ymerawdwr. Clywodd Valerian am yr hyn ddigwyddodd. Mynnodd ei fod yn cael ei ladd. "Dydi carchar

ddim yn ddigon da i ddyn fel hwn," meddai'r Ymerawdwr. "Mae'n rhaid i mi ddangos yn glir nad ydw i'n goddef ffyliaid fel y dyn hwn." Daethpwyd â Laurence allan o'r carchar ac fe'i lladdwyd yng ngŵydd y bobl i gyd.

Adnod: Ac wrth iddynt ei labyddio, yr oedd Steffan yn galw, "Arglwydd Iesu, derbyn fy ysbryd." Actau 7:59

Gweddi: O Dduw, ein Tad, hoffwn ddiolch i ti am ddewrder pobl ar hyd yr oesoedd sydd wedi bod yn ysbrydoliaeth i bobl eraill. Amen.

Trafod:

- Beth, debygech chi, sy'n gwneud i bobl fel Laurence farw dros eu cred?
- Ydi'r stori hon yn debyg i hanes Steffan yn llyfr Actau (pennod 7)?